
# NARATIF

Defnyddir iaith lafar naturiol yn y rhan hon. Allwch chi ganfod enghreifftiau?

Ydy hi'n dderbyniol defnyddio gair o'r Saesneg – ffantastig yma? Pam ydych chi'n credu hynny?




Un fraint fawr o fod yn chwarae pêl droed ar y lefel ucha yw bod rhywun yn ca'l crwydro a pherfformio ar lwyfannau pêl droed mwya'r byd. Rhai o'r caeau pêl droed a wnaeth argraff fawr arna i fel pêl droediwr yw Mestalla, cae Valencia; y Bernabéu, stadiwm Real Madrid: a'r hen Wembley. Ond 'dyn nhw ddim yn dod ar ben y rhestr o'n hoff gaeau pêl droed chwaith. Ar y brig ma' Celtic Park, o'dd yn gartref i fi a 60,000 o gefnogwyr ffyddlon am bum mlynedd. Ro'dd awyrgylch ffantastig yno bob amser ac ro'n i wastad yn ca'l y teimlad y gallen ni ennill yn erbyn unrhyw dîm pan o'n i'n chwarae yn Celtic Park. Ma'r adnoddau yno wedi gwella llawer dros y blynyddoedd diwetha. O dan Martin o'Neill, am y tro cynta ers 30 mlynedd, ro'dd Celtic yn dal yng nghystadlaethau Ewrop ar ôl tymor y Nadolig. Yn sgil hynny fe lwyddodd y clwb i adeiladu eisteddle newydd, i ga'l gwell cyfleusterau newid a sicrhau cae ymarfer newydd. Ac fe gawson nhw wared ar 'y jyngl', sef y rhan o'r cae lle bydde'r ymwelwyr yn sefyll.

Stori Sydyn – Hartson – Y Lolfa

Mae John Hartson yn defnyddio amser y gorffennol a'r presennol yma? Allwch chi ganfod enghreifftiau o'r ddau amser?

Beth yw ystyr 'Ar y brig'?

Sut gefnogwyr yw cefnogwyr Celtic yn ôl Hartson?

Lle welwch chi enghreifftiau o restru yn y darn hwn? Mae dwy enghraifft yma.